O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 122 (Cy. 18)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Rhos-maen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*24 Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*31 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Rhos-maen, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir Heol Rhos-maen, Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd â Theras yr Abaty hyd at ei chyffordd â Heol Newydd;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 31 Ionawr